CYNGOR CYMUNED MAWDDWY

**Cofnodion o gyfarfod o'r Cyngor a gynhaliwyd Nos Fercher yr 8fed o Fawrth 2023 am 7.30yh yn Neuadd Dinas Mawddwy.**

Presennol; Cyng. John P Jones, Berwyn Harding, Wyn Lewis, Rhys Davies, Geraint Morgans, Arfon Hughes, Sion Alun Roberts, John P Roberts, Lynne Mccrickett, Idris Jones a Huw T Jones (Clerc)

1. Estynwyd groeso cynnes i bawb gan yr Is - Gadeirydd John P Jones. Roedd ymddiheuriadau i law gan Cyng Catrin Johnson.
2. Nodwyd nad oedd unrhyw gais i gael cyflwyniadau gan aelodau o'r cyhoedd ar fater ar yr Agenda.
3. Cadarnhawyd gofnodion y cyfarfod diwethaf a gynhaliwyd ar y 25ain Ionawr ar gynnig Cyng Rhys Davies a'i eilio gan Cyng Wyn Lewis.

   Yng nghyswllt y drafodaeth ar y coed gerllaw y gefnffordd uwchlaw Dinas, gofynnodd Cyng John P Roberts paham nad oedd Cyng Catrin Johnson wedi mynegi diddordeb gan fod y coed yn ol ei ddealltwriaeth yn perthyn I Cyfoeth Naturiol Cymru. Roedd angen eglurhad ar bwy sydd yn berchen y coed.
4. **Materion yn codi**

a) **Materion Priffyrdd/Cefnffyrdd** – adroddwyd yr ymateb i'r holl faterion i Gyngor Gwynedd a Chefnffyrdd ers tro diwethaf. Nodwyd y diweddaraf yng nghyswllt darn o dir yn Lawnt y Plas lle nad oedd sicrwydd o berchnogaeth. Nid oedd Cyngor Gwynedd yn awyddus i gael cyfarfod i'w drafod. Gofynnwyd i'r Clerc geisio cael eglurhad ar oblygiadau i'r Cyngor Cymuned gymryd y darn trosodd, a chytunodd Cyng John P Roberts ymholi Cyngor Gwynedd a fyddent yn fodlon cyfarfod y costau cyfreithiol.
Yng nghyswllt y coed sydd angen eu cwympo ar y gefnffordd uwchlaw Dinas, roedd Arfon Hughes wedi siarad efo Osian Brynhyfryd, ac roedd lluniau yn cael eu danfon i Cyfoeth Naturiol Cymru.

b) **Byrddau gwybodaeth/dehongli -** adroddwyd y diweddaraf, a bod yna angen cyllid ar gyfer 3 ychwanegol, sef Aberangell, Mallwyd a Bwlch yr Oerddrws. Dywedodd Cyng Arfon Hughes y byddai Cwmni Nod Glas yn fodlon talu am y 3 yma, a diolchwyd yn fawr am hyn. Byddai angen yr anfoneb o fewn y 2 fis nesa. Yng nghyswllt **hysbysfyrddau,** roedd Catrin ac Andrew wedi codi 2 ohonynt sef yn Mallwyd a Minllyn, ac roedd Dyfan Tanybwlch wedi gwneud ffram. Diolchwyd yn fawr I bawb.

c) **Meddygfa Machynlleth –** nid oedd ymateb pellach gan Katie Blackburn, Prif Swyddog CIC Powys. Nodwyd fod yn bwysig cael engreifftiau pendant o gwynion am amseroedd aros ayyb i'w pasio ymlaen.

d) **Mynwent Llanymawddwy –** yn dilyn y drafodaeth yn y Pwyllgor diwethaf ynglyn a torri coed, dywedodd y Cyng John P Roberts fod camddealltwriaeth rhyngddo a'r contractor, ac mai eu torri yn eitha llwm yr oedd ef wedi ei ddweud.

e) **Ffordd o Eglwys Mallwyd i Plas Uchaf –** roedd y Clerc wedi danfon at Parch Miriam Beecroft, a oedd wedi ysgrifennu at Cyngor Gwynedd. Pwysleisiwyd eto

fod angen cael y gwaith wedi ei wneud. Cafwyd datganiad diddordeb gan Cyng John P Jones.

f) **Arwyddion Lawnt y Plas/Comin Dolybont -** Roedd y Clerc wedi siarad gyda Rhys Gwyn, ac roedd hyn mewn llaw, ond nid oedd ateb pendant hyd yma. Addawodd Cyng J P Jones roi rhai polion o'r newydd ar ochr y ffordd lle roeddent wedi pydru, a diolchwyd yn fawr iawn iddo.

g) **Hen fynwent y Dinas –** gwelwyd fod angen trafod hyn yn y cyfarfod nesaf.

h) **Mastiau ffon –** gwelwyd y dylid gofyn I'r Parc Cenedlaethol a oeddent yn gwybod a oedd y mast ger Penrhiwcul yn weithredol.

**5. Materion Cynllunio**

Nid oedd unrhyw geisiadau cynllunio i law.

6. **Materion Cyllid.**

Nodwyd balansau cyfrifon y Cyngor (8/03/23), sef Cyfri Cyfredol £3782.79, Cyfri Claddedigaeth £437.87 Cyfri Cadw £770.42.

Cadarnhawyd talu cydnabyddiaeth pedwerydd chwarter i'r Clerc, sef £434.95, a HMRC £108.80. Hefyd y costau am y flwyddyn gyfan, sef £1250 a oedd wedi ei gytuno.

Cytunwyd i dalu anfoneb EW Owen a'i chwmni am waith gyda'r PAYE/RTI am £216, ac aelodaeth Un Llais Cymru 2023-24 am £142.

Ar ol y taliadau yma, roedd £1582 ar gael i gyfraniadau cyn diwedd y flwyddyn ariannol, a chytunwyd fel a ganlyn;

Neuadd Dinas Mawddwy £600 (cafwyd datganiad diddordeb gan Cyng Wyn Lewis a Lynne Mccrickett)

Neuadd Aberangell £300 (cafwyd datganiad diddordeb gan Cyng Berwyn Harding)

CFFI Dinas Mawddwy £200.

(nodwyd fod angen mantolen erbyn y tro nesaf y byddem yn cyfrannu)

Penderfynywd na fyddem yn cyfrannu i CFFI Meirionnydd, Yes Cymru,Ambiwlans Awyr Cymru, Theatr Bara Caws, na chais gan fam plentyn yn Ysgol Hafod Lon, Penrhyndeudraeth.

**5. Gohebiaeth.**

a) Nodwyd fod cadarnhad gan Swyddfa Archwiliad Cymru fod archwiliad 2021-22 bellach wedi ei gwbwlhau, ac roedd y gwybodaeth wedi ei roi ar yr hysbysfwrdd yn y Dinas, ac ar wefan Cyngor Mawddwy.

b) Darllenwyd yn llawn lythyr gan Andrea Smith yngyd a 7 o drigolion Mallwyd yn son am fywyd gwyllt a bioamrywiaeth yn y fynwent yn Mallwyd, ac yn gwahodd y Cyngor I'w cyfarfod I drafod rheolaeth torri y gwair gyda'r contractor eleni. Trafodwyd yn faith, a phenderfynwyd, ar gynnig Geraint Morgans a'i eilio gan John P Roberts gyda chefnogaeth mwyafrif y Cynghorwyr i ymateb fel a ganlyn - sef fod bywyd gwyllt presennol y fynwent yn ganlyniad i reolaeth fel ag y mae ar hyn o bryd. Ni welwyd y byddai unrhyw fudd mewn cyfarfod yno, ac mai mater I'r Cynghorwyr etholedig oedd penderfynnu sut I symud ymlaen. Penderfynwyd fodd bynnag

y dylid gadael rhan fach o'r fynwent ar gyfer bywyd gwyllt, ac i newid hyn yn rheolaidd. Gwelwyd y dylid trefnu i gyfarfod Tegid y contractor ym mis Mai pan fyddai yn torri am y tro cyntaf, a chytunodd John P Jones a Geraint Morgans i fod yn gyfrifol am hyn. Byddai y Clerc yn trefnu gyda Tegid fel bod y toriad cyntaf fyddai yn cymryd lle yno yn cael ei wneud yn nechrau mis Mai, sef tua pythefnos cyn priodas yno ar yr 20fed o Fai.

Tra yn trafod hyn, cadarnhawyd y dylid gofyn I Hefin Davies unwaith yn rhagor i dorri mynwent Dinas Mawddwy, a Tegid Humphreys I wneud mynwentydd Mallwyd a Llanymawddwy.

c) Darllenwyd e-bost ynglyn a newidiadau arfaethedig i derfynau cyflymder I 20mya.

**7. Unrhyw Fater arall.**

a) Cyfeiriwyd at yr ymdrechion sydd wedi cael eu gwneud i gael biniau baw cwn yn ardal Dinas, ac ymateb y Warden cwn. Nodwyd ei ymateb a oedd yn dweud fod cael biniau newydd ddim ar gael ar hyn o bryd oherwydd cyllid, ac hefyd diffyg staff i wasanaethu'r biniau. Nodwyd y cyhoeddusrwyd drwy face book am lwyddiant i gael biniau yn Aberangell, a mynegwyd siom gan Cyng Lynne Mccrickett nad oedd yr un cymorth wedi bod i gael biniau yn Dinas, ac y dylid cael llawer mwy o gydweithio. Addawodd Cyng John P Roberts edrych i mewn i hyn mor fuan a phosib. Yn ystod y drafodaeth, nodwyd mor bwysig yw cael y biniau wedi eu gwagu yn rheolaidd, ac annog pawb i gasglu baw eu cwn yn rheolaidd.

b) Mynegwyd siom am ymgyrch i gael Cyngor Gwynedd i brynu tai gweigion yn yr ardal , tra bod tai eraill sy'n eiddo cyhoeddus mewn cyflwr gwael. Wrth drafod hyn, nodwyd mor bwysig yw cael blaenoriaeth i bobl leol, a dywedodd Cyng John P Roberts fod byngalow ar gael yn lleol yn Dinas, gyda chyfle da i unrhyw un oedd a diddordeb.

c) Roedd angen clirio rhai coed islaw y ffordd ger Pont ar Wysgen ar yr A458 i wella golwg i deithwyr.

d) Roedd llinellau gwyn wedi diflannu yng nghanol y ffordd ar yr A470 yng nghylch Dinas.

e) Cyfeiriwyd at yr hysbyseb am werthiant Eglwys Llanymawddwy, a thrafodwyd a oedd angen ymateb. Yn dilyn trafodaeth faith, lle nodwyd fod rhai trigolion wedi son wrth Cyng Sion Alun Roberts a Cyng John Pughe Roberts, penderfynwyd y dylai y Cyngor Cymuned drefnu cyfarfod cyhoeddus i roi cyfle i bobl yr ardal i roi eu sylwadau. Atogoffodd y Clerc am y gohebiaeth flaenorol a'r cyfarfodydd gyda'r Eglwys, a'r penderfyniad wnaethpwyd yn Rhagfyr 2020 nad oedd y Cyngor yn awyddus i brynu yr Eglwys, na chymryd trosodd rhan o'r Eglwys gan yr Eglwys yng Nghymru – er nad oedd hyn i ddweud y gallai grwpiau eraill fod a diddordeb. Y gohebiaeth diwethaf oedd y 1af Medi 2022, pryd y rhoddwyd caniatad i hysbysu fod yr Eglwys yn mynd ar y farchnad, ac i wahodd diddordeb, ond byddai rhaid cael cyfarfod cyn y gwerthiant terfynol.
Penderfynwyd cynnal y cyfarfod yn Neuadd Dinas Mawddwy Nos Fercher 15fed o Fawrth am 8yh. Cytunodd Cyng John P Roberts, Sion Alun Roberts ac Arfon Hughes i fod yng ngofal y trefnu ac hysbysu, a diolchwyd yn fawr iawn iddynt. Cytunodd Cyng John P Roberts i Gadeirio.

f) Nodwyd fod rhan o'r llwybr troed o flaen y tai Cyngor yn Lawnt y Plas wedi rhoi mewn un man o flaen Rhif 8, ac roedd angen cysylltu gyda Adra.

g) Yn dilyn ymholiad, cadarnhwyd fod pob dim mewn trefn i’r Clerc barhau i ddanfon adroddiad byr i’r Blewyn Glas yn dilyn cyfarfod, a cyn i’r cofnodion gael eu cadarnhau. Roedd y Clerc yn ymgynghori gyda Cadeirydd y cyfarod bob tro cyn eu danfon.

**DYDDIAD CYFARFOD NESAF; NEUADD DINAS MAWDDWY NOS FERCHER 17eg o Fai 2023 , 7.30yh.**